

# Polisi Defnydd TGCh Derbyniol

Canllawiau ac amodau yn y defnydd addas o adnoddau TGCh

Mae rhwydwaith cyfrifiadurol Ysgol Dyffryn Nantlle wedi cael ei ddarparu i staff a disgyblion yr ysgol ar gyfer pwrpasau addysgol i rannu a derbyn adnoddau.

Mae pob disgybl yn cael mynediad i'r rhwydwaith a mynediad i'r we trwy gyfrif personol. Ystyrir yr hawl yma yn ffrainc y gellir cael ei thynnu oddi arnynt os yw'r adnodd yn cael ei gam-drin.

## Polisiau Cyffredinol

Darperir y cyfleusterau yma yn bennaf ar gyfer budd addysgol y disgyblion a datblygiad proffesiynol y staff. Mae unrhyw ymddygiad sydd yn ymyrryd â'r amcanion sylfaenol yma yn cael eu hystyried yn drosedd o'r defnydd derbyniol.

Mae defnydd o adnoddau TGC i bwrpasau addysgol yn cael blaenoriaeth dros bob defnydd arall, e.e. defnydd hamdden.

Rhaid defnyddio iaith briodol ym mhob math o gyfathrebu, gan gynnwys, e-bost, negeseuon a thudalennau gwe.

Ni ddylai unrhyw ddefnyddiwr wastraffu adnoddau TGC yn fwriadol neu'n ddamweiniol, e.e. argraffu dianghenraid, neu roi defnyddwyr eraill mewn anfantais e.e. trwy fonopoleiddio adnoddau, neu draffig ar y rhwydwaith.

Dylid ystyried defnyddwyr eraill trwy beidio â chreu anhwylystod iddynt, e.e. defnyddio clustffonau i wrando ar fiwsig, gadael cyfrifiadurol yn barod ar gyfer y defnyddiwr nesaf allu mewngofnodi, peidio â gadael ysbwriel neu bapur o amgylch yr ystafell, ail osod y dodrefn megis cadeiriau yn y manau arferol wrth adael yr ystafell.

Ni ddylai disgyblion:

- Ddefnyddio iaith annerbyniol a sarhaus mewn unrhyw fath o gyfathrebu
- Dwyn, neu ddifrodi'n fwriadol neu'n ddiogfal unrhyw offer TGC
- Ymyrryd efo neu newid unrhyw fformat a osodir i feddalwedd neu waith pobl eraill
- Ceisio dileu neu leihau'r lefel gwarchodaeth sydd ar y rhwydwaith
- Gwneud rhywbeth i gyfeiriadur disgybl arall
- Storio mathau o ffeiliau sydd wedi cael eu gwahardd ar eu cyfeiriadur personol
- Gwastraffu adnoddau
- Anfon 'llythyrau sothach' neu unrhyw fath o e-bost dianghenraid
- Datgelu gwybodaeth bersonol mewn unrhyw fath o gyfathrebu
- Mynd i wefannau sydd yn cynnwys defnyddiau annymunol yn fwriadol
- Dorri hawliau hawlfraint yn fwriadol

## Caledwedd

Mae adnoddau TGC yn ddrud, yn sensitif ac angen eu trin gyda gofal

Ni ddylai disgyblion:

- Wneud unrhyw beth sydd yn mynd i greu difrod i unrhyw offer, yn fwriadol neu'n ddamweiniol
- Dwyn offer
- Fandaleiddio offer e.e. graffiti
- Marcio neu ddifwyno unrhyw offer
- Ymyrryd efo unrhyw offer sydd yn rhan o rwydwaith yr ysgol, e.e. hubs
- Bwyta nac yfed wrth unrhyw gyfrifiadur yn yr ysgol
- Geisio trwsio offer

- 
- Ni ddylai disgyblion, heb ganiatâd
- Datgymalu ceblau neu offer
- Symud offer i fan arall

Ni ddylid awdurdodi unrhyw ddisgybl, beth bynnag fo ei lefel o ddealltwriaeth i geisio trwsio nac addasu unrhyw galedwedd neu feddalwedd sydd yn perthyn i'r ysgol. Ystyrir gweithred o'r fath yn drosedd yn erbyn diogelwch y rhwydwaith. Dylid cyfeirio unrhyw broblem gydag unrhyw offer neu feddalwedd i'r technegydd.

### **Meddalwedd a systemau gweithredu (Cyfrifiaduron)**

Rhaid i bob darn o offer cyfrifiadurol o fewn amgylchedd yr ysgol gael ei osod i fyny yn briodol i sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon.

Felly:

- Ni ddylid gwneud unrhyw newidiadau i osodiad unrhyw gyfrifiadur, e.e. newid lliwiau'r 'desktop'
- Ni ddylid ceisio sefydlu unrhyw feddalwedd ar y rhwydwaith. Y technegydd yn unig sydd yn sefydlu unrhyw feddalwedd ar y rhwydwaith. Cedwir trwyddedau pob darn o feddalwedd sydd ar rwydwaith yn ganolog.
- Ni ddylid gwneud unrhyw newidiadau i ffeiliau ffurwedd (configuration files)
- Ni ddylid gwneud unrhyw beth sydd yn mynd i beryglu diogelwch y rhwydwaith.

### **Rhwydwaith**

Mae'r holl ddata a gedwir ar rwydwaith yr ysgol yn cael ei warchod o dan y Ddeddf Gwarchod Data 1998.

Mae gan bob disgybl yn yr ysgol gyfrif i fynd ar rwydwaith yr ysgol. Cyfrifoldeb y disgybl yw sicrhau ei fod yn cadw ei gyfrinair yn ddiogel a pheidio ei ddatgelu i neb arall. Gall disgybl gael newid ei gyfrinair trwy gysylltu â thechnegydd yr ysgol.

Mae'r holl ddata a gedwir ar rwydwaith yr ysgol yn cael ei fonitro. Ni chaniateir lawr llwytho, dosbarthu neu storio cerddoriaeth, fidio ffilmiau neu ddeunyddiau eraill os nad yw ar gyfer pwrpasau dysgu ac addysgu. Mae hyn yn cael ei reoli ar ddisgresiwn y technegydd.

Dylid cael cyngor gan y technegydd os ydych angen storio, anfon neu drin ffeiliau mawr eu maint gan fod hyn yn llenwi disgiau caled y ffeil weinyddwr ac yn gallu arafu rhediad y rhwydwaith.

### **Deddf Gwarchod Data 1998**

Mae'r Ddeddf yma yn gorfodi Ysgol Dyffryn Nantlle i sicrhau bod data personol a gedwir ar unrhyw berson yn cael ei brosesu yn unol â gofynion y Ddeddf.

### **Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990**

Mae'r Ddeddf yma sicrhau Bod unrhyw ddefnydd anghyfreithlon o systemau TGC ac unrhyw newid anawdurdodedig a wneir i ddata yn drosedd. Golyga hyn fod defnyddio cyfrinair person arall i gael mynediad i system gyfrifiadurol ac edrych ar ddata yn drosedd.

Mae'r pwyntiau canlynol yn cael eu cyfrif yn anghyfreithlon o dan y Ddeddf Camddefnyddio cyfrifiaduron felly ni ddylai disgyblion:

- Geisio mewngofnodi i rwydwaith yr ysgol trwy ddefnyddio enw a chyfrinair person arall.
- Dweud beth yw eu cyfrinair wrth ddisgybl arall
- Defnyddio neu fod mewn perchnogaeth o raglen allai leihau'r diogelwch sydd ar y rhwydwaith
- Newid ffeiliau sydd yn perthyn i bobl eraill
- Storio ffeiliau EXE

- Cadw unrhyw ddefnyddiau aflan - lluniau a/neu destun
- Cadw unrhyw ddefnyddiau sarhaus
- Defnyddio enwau ffeiliau aflan
- Ffeiliau sydd wedi cael eu gwarchod gan gyfrineiriau
- Storio defnyddiau sydd â hawlfraint arnynt
- Dileu ffeiliau ond yn eu cyfeiriadur eu hunain

Mae hawlfraint yn faes cymhleth ac mae llawer o fannau annelwig yn enwedig efo'r rhyngwrwyd. Dylid nodi tarddiad unrhyw ddefnyddiau a ddefnyddir gan gynnwys graffeg a thestun.

## Argraffu

Dylid gwneud ymdrech i leihau faint a argraffir bob amser trwy;

- Defnyddio 'Print Preview' cyn argraffu
- Defnyddio gwiriwr sillafu cyn argraffu
- Prawf ddarllen ar y sgrin cyn argraffu
- Ni ddylid argraffu yn syth o'r wê, ond yn hytrach gopïo a phastio i ddogfen brosesydd geiriau
- Cyflwyno system cwota i reoli faint o bapur all disgyblion argraffu

## Firws

Mae meddalwedd gwrth firws wedi cael ei osod ar bob cyfrifiadur sydd yn rhan o'r rhwydwaith. Diweddarar y meddalwedd yn rheolaidd. Er hyn nid yw pob system yn 100% ddiogel a dylai pob defnyddiwr fod yn ymwybodol o beryglon firws, yn enwedig wrth ddefnyddio dyfeisiadau fel 'co bach', CDROM's neu wrth ddefnyddio'r we.

Yn unol â Deddf Camddefnydd Cyfrifiaduron 1990 ni ddylai rhwydwaith yr ysgol a'r we, gael ei defnyddio i bwrpasau anghyfreithlon fel rhannu firws, rhannu a derbyn meddalwedd sydd ddim yn gyfreithlon i'w ddefnyddio ( ddim yn rhan o'r parth cyhoeddus (Public Domain)).

## E-bost

Mae e-bost yn arf defnyddiol i gyfathrebu o fewn y rhwydwaith a thu hwnt. Ar hyn o bryd nid oes gan y disgyblion gyfrif e-bost , ond fe ragwelir y bydd angen adolygu hyn yn y dyfodol.

Wrth ddefnyddio e-bost dylid nodi'r pwyntiau canlynol;

- Dylid defnyddio iaith addas a bod yn gwrtais yn y negeseuon. Ni ddylid bod yn sarhaus, rhegi neu ddefnyddio iaith anwedus.
- Ni ddylid ysgrifennu e-bost ffiائد, llythyrau cadwyn, neu unrhyw fath o lythyrau sydd yn cynnwys ymddygiad gwrth cymdeithasol. Ni ddylai unrhyw neges gynnwys rhegfeydd, bygythiadau, defnydd amlwg rhywiol, neu fynegiadau o ragfarn a chasineb.
- Ni ddylid datgelu gwybodaeth bersonol (cyfeiriadau/rhifau ffôn) neu fanylion disgyblion eraill
- Pwysig - nid yw e-bost byth yn breifat. Mae gan dechnegydd yr ysgol fynediad at bob ffeil gan gynnwys e-bost. Bydd negeseuon yn ymwneud a gweithgareddau anghyfreithlon yn cael eu cyfeirio at aelodau UDR yr ysgol.
- Ceisio cuddio pwy sydd wedi anfon y neges neu darddiad yr e-bost.
- Defnyddio unrhyw raglen a gynlluniwyd i anfon negeseuon dienw
- Defnyddio e-bost ar gyfer unrhyw bwrpasau anghyfreithlon
- Ni ddylid anfon atodiad mawr i e-bost gan fod hyn yn gallu cloi'r rhwydwaith.

Rhaid cadw i'r pwyntiau uchod os yw disgybl neu aelod o staff yn defnyddio system e-bost swyddogol yr ysgol neu unrhyw fath o e-bost ar rwydwaith yr ysgol, e-bost gwefan, e.e. Hot Mail

## Llinellau Sgwrsio

Nid yw llinellau sgwrsio amser-real fel Bebo, My Space, Facebook, Rate My Teacher neu fforymau tebyg ar gael i'w defnyddio gan y disgyblion. Mae systemau i rwystro mynediad i safleoedd o'r fath mewn lle gan yr ysgol.

### Defnydd personol o wefannau cymdeithasol (Athrawon)

- Ni chaniateir defnydd o wefannau rhwydweithio cymdeithasol yn ystod oriau gwaith, e.e. Facebook, Bebo ayb.
- Peidio â mynegi sylwadau personol ar y wê ble gellir eu dehongli fel sylwadau/barn am yr Awdurdod neu'r ysgol.
- Peidio â thrafod materion yn ymwneud â gwaith ar y gwefannau hyn, gan gynnwys mewn sgwrs breifat. Gallai arwain at erlyniad gan aelodau eraill o staff neu'r cyhoedd.
- Ni ddylid cysylltu â disgyblion ar lein.
- Dylai pob aelod o staff sicrhau nad yw unrhyw weithgaredd ar-lein yn yr ysgol yn dod ac anfri neu warth ar ei rôl broffesiynol neu ar unrhyw un arall yn yr ysgol.
- Dylid tynnu sylw'r Pennaeth os darganfyddir unrhyw sylwadau anaddas am yr ysgol neu athrawon.

### Datganiad ar e-ddiogelwch yng nghwricwlwm Ysgol Dyffryn Nantlle

Mae TGCh yn adnodd ar-lein ac yn cael ei ddefnyddio'n helaeth ar draws yr ysgol. Credwn ei bod yn hanfodol i bob disgybl gael arweiniad cynhwysfawr yn y maes yma. Mae e-ddiogelwch yn rhan o'r cwricwlwm ac fe roddir sylw i hyrwyddo dulliau o e-ddiogelwch o fewn yr ysgol.

- Mae gan yr ysgol fframwaith o ddysgu sgiliau defnyddio'r wê yn y gwersi TGCh ac mewn gwersi eraill.
- Cyflwyno'r ysgol ystod o gyfleoedd ar draws y cwricwlwm i ddysgu e-ddiogelwch.
- Mae'r disgyblion yn cael eu haddysgu am beryglon sydd yn dod yn sgil y dechnoleg cyfathrebu a chyfrifiaduron yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol.
- Mae disgyblion yn ymwybodol o ddeddfwriaeth berthnasol wrth ddefnyddio'r wê, megis gwarchod data, eiddo personol (intellectual property) a all gyfyngu'r hyn maent yn gallu ei wneud, ond hefyd yn gyfrwng i'w gwarchod.
- Addysgir y disgyblion am hawlfraint a pharchu eiddo pobl eraill, lluniau, cerddoriaeth, ayb.
- Mae disgyblion yn ymwybodol o seibr fwlio ac yn gwybod sut, a lle i gael cymorth os ydynt yn cael eu heffeithio gan unrhyw fath o fwlio ar-lein. Mae disgyblion hefyd yn ymwybodol lle i gael cymorth os ydynt yn cael problem wrth ddefnyddio'r wê a'r dechnoleg berthnasol, rhiant /gwarcheidwad, athro neu sefydliad fel Childline neu fotwm adrodd camddefnydd gan CEOP.
- Addysgir disgyblion sut i ddilyn llwybrau holi ar y wê a sut i bwysu a mesur perthnasedd yr hyn maent yn ei ddarganfod wrth chwilio.